# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 16.03.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Peter Read, W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nododd y Rheolwr Trwyddedu ei fod yn byw ger mam yng nghyfraith perchennog Penlan Fawr, Pwllheli a bod ei ferch yn cael gwersi ffliwt gan Ysgrifenyddes Siop Pen y Groes, Llithfaen.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – PENLAN FAWR, STRYD PENLAN, PWLLHELI

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Penlan Fawr, Stryd Penlan, Pwllheli:** Mr Iwan Edgar (Perchennog) a Mr Dewi Evans (Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Cwnstabl Sharon Jones a Cwnstabl Dylan Roberts

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Sion S. Roberts (aelod lleol)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran Penlan Fawr, Stryd Penlan, Pwllheli i wyro trwydded yr eiddo i ymestyn yr oriau ar gyfer cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, dawnsio a chyflenwi alcohol rhwng 11.00 a 00.00 bob diwrnod o'r wythnos, ynghyd ag awr arall hyd at 01.00 ar ddydiadau penodol, gyda'r eiddo'n cau am 01.00 bob dydd o'r wythnos a 02.00 ar y dyddiadau ychwanegol.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gwrthwynebiad chwaith gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nid oedd gan yr Adran Cynllunio na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau ar y cais. Derbyniwyd llythyr gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau**.**

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Mewn ymateb i gwestiwn parthed perfformio cerddoriaeth fyw a darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio “tu allan yn yr haf”, cadarnhaodd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig mai’r bwriad fyddai eu cynnal yn yr ardd tu cefn i’r adeilad yn achlysurol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi yn flynyddol. Cadarnhaodd hefyd, mewn ymateb i gwestiwn, ei fod am gadw’r hawl a etifeddwyd o’r hen ddeddfwriaeth i fedru agor am 36 awr nos/dydd Calan. Er nad oedd unrhyw fwriad i agor am yr holl oriau hynny, byddai cadw’r hawl yn hwyluso pethau. ‘Roedd hefyd yn fodlon gyda’r amodau a argymhellwyd gan yr heddlu.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu’r Heddlu nad oes ganddo dystiolaeth i wrthwynebu’r cais. Ychwanegodd bod yna gydweithio parod gyda’r heddlu a’i fod felly’n fodlon i’r cais gael ei ganiatau yn ddarostyngedig i’r amodau hynny a nodwyd yn y llythyrau at yr Awdurdod Trwyddedu.

Nid oedd y gwrthwynebwyr yn bresennol yn y cyfarfod i gefnogi’r sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau’r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o broblemau gyda’r eiddo ac ‘roedd yr heddlu’n fodlon gyda’r cais yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â theledu cylch cyfyng, aelodaeth o’r Cynllun Gwarchod Tafarndai, goruchwylwyr drysau a chadw cofrestr cydnabyddedig o staff drysau a gyflogir yn yr eiddo.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth dan y pennawd hwn.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – cymerodd yr is-bwyllgor bryderon y gwrthwynebwyr i ystyriaeth, sef y byddai ychwanegu awr at yr oriau agor yn arwain yn anochel at fwy o sŵn gyda’r hwyr. ‘Roedd yn rhaid, serch hynny, i’r is-bwyllgor selio ei benderfyniad ar dystiolaeth. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw broblemau wedi dod i’r amlwg ac ni allent ddamcaniaethu ynglyn â’r hyn allai ddigwydd. Nid oedd rheswm felly dan y pennawd hwn fyddai’n cyfiawnhau cyfyngu neu wrthod y cais,
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â’r amcan hwn.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Penlan Fawr, Stryd Penlan, Pwllheli fel a ganlyn –**
**a) Cerddoriaeth fyw (paragraff E) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 00.00 ond i’w ganiatau oddi allan i’r adeilad yn yr ardd, rhwng I Ebrill a 30 Medi yn flynyddol, ac i orffen am 20.30.**
**b) Cerddoriaeth wedi ei recordio paragraff F) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 00.00.**
**c) Darparu cyfleusterau ar gyfer dawnsio (paragraff J) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 00.00 ond i’w ganiatau oddi allan i’r adeilad, yn yr ardd, rhwng 1 Ebrill a 30 Medi yn flynyddol, ac i orffen am 20.30.**
**ch) Gwerthu alcohol (paragraff M) – dydd Llun i ddydd Sul – 11.00 i 00.00.**
**d) Yr eiddo’n agored i’r cyhoedd (paragraff O) – dydd Llun i ddydd Sul – 07.00 i 01.00.**
**dd) Yr amseroedd ansafonol ar gyfer y gweithgareddau uchod i gyd i barhau fel sydd ar y drwydded gyfredol.**
**e) Bydd teledu cylch cyfyng wedi ei osod ac yn gweithio’n ddigon da i’r heddlu a’r awdurdod lleol allu monitro tu mewn a thu allan i’r eiddo. Dylid cadw’r cofnodion mewn fformat heb ei olygu am gyfnod o ddim llai na 31 diwrnod ac ar gael ar gais yr heddlu neu’r awdurdod lleol.**

**f) Bydd yr eiddo yn aelod o'r cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion.**
**ff) Bod Goruchwylwyr Drysau cofrestredig gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (ADD) ar ddyletswydd bob nos Sadwrn ac ar bob achlysur pryd y cynhelir adloniant byw yn yr eiddo.**
**g) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi os yn berthnasol). Dylid cadw'r gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 3. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – PECKISH, 78, STRYD FAWR, PWLLHELI

**Ar ran Peckish, 78, Stryd Fawr, Pwllheli:** Mr Fatih Yilmaz (Daliwr a drwydded) a Mrs Mary Yilmaz

Nodwyd mai Mr Fatih Yilmaz yw daliwr y drwydded ond sylwyd bod y drwydded eiddo presennol yn enw person arall. Eglurodd y Swyddog Priodoldeb bod y Ddeddf Trwyddedu yn nodi mai deilydd y drwydded bresennol sydd â'r hawl i wneud cais am wyriad ac felly nid yw'r cais hwn yn ddilys. Bydd angen i Mr Yilmaz drosglwyddo'r drwydded eiddo i'w enw ef.

Cytunodd Mr Yilmaz i dynnu'r cais am wyriad yn ôl a chyflwyno cais o'r newydd yn dilyn trosglwyddo'r drwydded eiddo i'w enw ef.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – SIOP PEN Y GROES, LLITHFAEN, PWLLHELI

**Ar ran Siop Pen y Groes, Llithfaen, Pwllheli:** Mrs Sianelen Pleming (Ysgrifenyddes Cwmni Cyfyngedig Siop Pen y Groes)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Cwmni Siop Pen y Groes, Llithfaen, Pwllheli am drwydded eiddo i ganiatau gwerthu alcohol rhwng 07.30 a 19.00 pob diwrnod o'r wythnos, gyda'r eiddo'n agored rhwng 07.00 a 20.00 pob diwrnod o'r wythnos.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nid oedd gan yr Heddlu na Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthwynebiad i'r cais gydag amodau. Nid oedd gan yr Adran Cynllunio na'r Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau ar y cais. Derbyniwyd llythyrau gan drigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais ond 'roedd dau o'r gwrthwynebwyr wedi ymddiheuro gan nad oeddynt yn medru mynychu'r gwrandwiad.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu . hachos

Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd ysgrifenyddes cwmni cyfyngedig y siop mai siop gymunedol oedd hon, a'i bod yn holl bwysig ei bod yn medru parhau ar agor. 'Roedd gwerthu alcohol wedi ei adnabod fel un o'r ffyrdd i geisio sicrhau llwyddiant i'r siop. Nid oes bwriad i gadw llawer o alcohol yn y siop ac ni fyddai'n bosibl iddynt ei werthu'n rhad fel y gallai'r siopau mwy ei wneud. 'Roeddynt yn hollol ymwybodol o beryglon alcohol i bobl ifanc, ac nid oedd unrhyw fwriad i dargedu'r gwerthiant alcohol atynt. Mewn siop fach bentrefol fel hon, byddai'r sawl oedd yn gwasanaethu yn adnabod pwy oedd dan oed, a byddai gweithredu'r cynllun "Herio 21" yn atgyfnerthu'r trefniadau i sicrhau na fyddai alcohol yn cael ei werthu i unrhyw un dan oed. 'Roedd yn cytuno gydag argymhelliad yr heddlu i arddangos yr alcohol tu ôl i'r cownter yn unig, ac felly byddai'n rhaid i gwsmer ofyn am alcohol.

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr, ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu mai ei unig bryder oedd ynglyn â lle y byddai'r alcohol yn cael ei arddangos. 'Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno y byddai'n cael ei arddangos tu ôl i'r cownter yn unig, ac felly 'roedd yr heddlu'n fodlon gyda hyn. Yn ddarostyngedig i'r amodau yn eu llythyr dyddiedig 21 Chwefror 2011, nid oedd ganddynt wrthwynebiad i ganiatau'r cais.

Gadawodd y partion perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn – ystyriwyd y pryderon a fynegwyd yn y llythyrau o wrthwynebiad, y byddai caniatau'r cais yn arwain at dor-cyfraith. Serch hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau gyda'r eiddo, ac ni allai'r is-bwyllgor ddamcaniaethu ynglyn â beth allai ddigwydd yn y dyfodol. Cymerwyd i ystyriaeth nad oedd gan yr heddlu wrthwynebiad i'r cais yn ddarostyngedig i osod amodau. Nid oedd felly tystiolaeth ddigonol dan y pennawd hwn i gyfiawnhau cyfyngu neu wrthod y cais.
- Diogelwch y Cyhoedd – ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r amcan hwn.
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus – nodwyd pryderon y gwrthwynebwyr y gallai caniatau'r cais arwain at broblemau dan y pennawd hwn yn enwedig o safbwynt ysbwriel. Serch hynny, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod problemau'n deillio o'r siop ac nid oedd tystiolaeth i awgrymu y byddai caniatau'r cais yn arwain at broblemau o'r fath. Nid oedd felly unrhyw dystiolaeth wedi dod i law a fyddai'n cyfiawnhau cyfyngu i wrthod y cais.
- Amddiffyn Plant rhag Niwed – 'roedd y cyfan o'r gwrthwynebwyr yn datgan pryderon y byddai caniatau'r cais yn arwain at yfed dan oed yn y pentref. Gan fod hwn yn gais o'r newydd nid oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau gyda'r eiddo y gallai'r is-bwyllgor ei ystyried. Serch hynny, bwriad yr amodau a gynigiwyd gan yr heddlu (ac a dderbyniwyd gan yr ymgeisydd) oedd rhwystro problemau o'r fath rhag codi. Felly, nid oedd tystiolaeth ddigonol dan y pennawd hwn i gyfiawnhau gwrthod neu gyfyngu'r cais.

'

**PENDERFYNWYD caniatau trwydded eiddo ar gyfer Siop Pen y Groes, Llithfaen, Pwllheli fel a ganlyn -**
**a) Gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar yr eiddo (paragraff M) rhwng 07.30 i 19.00 dydd Llun i ddydd Sul.**
**b) Yr eiddo ar agor i'r cyhoedd (paragraff O) o 07.00 i 20.00 dydd Llun i ddydd Sul.**

**c) Yr alcohol i gael ei arddangos tu ôl i'r cownter yn unig.**
**ch) Bod y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn rhoddi llythyr yn awdurdodi'r gwirfoddolwyr i werthu alcohol yn yr eiddo.**
**d) Bod cynllun "Herio 21" yn cael ei orfodi yn yr eiddo.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.15pm